sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

# Adolygiad o gynnydd arfaethedig ym maint y cynnwys archif ar BBC iPlayer

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 19 Hydref 2022
Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 14 Tachwedd 2022

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# Trosolwg

Mae'r holl wasanaethau fideo-ar-alw ("**VoD**") mawr yn cynnig amrywiaeth o raglenni newydd a chatalogau o gynnwys hŷn. Ers 2019, mae'n bosib i gynulleidfaoedd gael mynediad i raglenni ar BBC iPlayer am 12 mis o'i ddarlledu fel mater o drefn. Mae rhaglenni hŷn hefyd ar gael, er enghraifft cyfresi blaenorol o deitlau sy'n dychwelyd. Ar hyn o bryd, mae'r BBC yn cyfyngu ar argaeledd rhaglenni hŷn ar BBC iPlayer gan gyfeirio at y meintiau a nodwyd ganddi yn ei chynigion ar gyfer BBC iPlayer yn 2019.[1]

Mae'r BBC yn awr yn cynnig peidio â chymhwyso'r terfynau hyn mwyach a chynyddu maint y cynnwys hŷn ar BBC iPlayer drwy gyhoeddi - yn amodol ar ei chyfyngiadau ariannol a gweithredol - unrhyw deitl yn unol â'i chytundebau gyda chynhyrchwyr a deiliaid hawliau sylfaenol. Mae wedi ymgymryd â phrawf budd y cyhoedd (“PIT”) ar ei chynnig, ac mae Bwrdd y BBC wedi dod i'r casgliad fod y cynnig yn bodloni'r PIT ac nad yw'n newid materol.

### Yr hyn rydym yn ymgynghori arno - yn gryno

At ddibenion ein hasesiad materoliaeth, **rydym wedi ystyried sut y gallai BBC iPlayer esblygu'n realistig dros y blynyddoedd i ddod yng ngoleuni'r cynnig gan y BBC**. Mae cynnig y BBC yn dangos y byddai'n disgwyl gweld cynnydd o lai na thair gwaith y lefelau presennol o gynnwys archif ar BBC iPlayer yn ystod y cyfnod hwn. Byddai hyn yn golygu newid canrannol sy'n llai na'r cynnydd yn y cynnwys ar BBC iPlayer ers y newid i BBC iPlayer yn 2019. Rydym wedi ystyried sut y gallai'r cynnig effeithio ar y defnydd o BBC iPlayer, maint unrhyw eilyddio a allai ddigwydd o ran cynulleidfaoedd, a sut y gallai hyn effeithio ar refeniw masnachol, yn ogystal â chymryd datblygiadau yn y farchnad i ystyriaeth.

**Rydym o'r farn i ddatgan nad yw cynnig y BBC yn newid materol**, ar ôl asesu'r dystiolaeth sydd ar gael, sy'n awgrymu mai cyfyngedig fydd yr effaith ar gystadleuwyr unigol. Mae hyn yn seiliedig ar asesu'r risgiau i gystadleuaeth dros amserlen resymol ac nid yw'n awgrymu gosod terfynau ar faint o gynnwys y gallai'r BBC ei ychwanegu. Er hynny, bydd yn ofynnol o hyd i'r BBC ystyried a allai newidiadau i BBC iPlayer yn y dyfodol gael effaith berthnasol ar gystadleuaeth, ac mae offer rheoleiddio ar gael i Ofcom a allai ystyried materion cystadleuaeth arwyddocaol a allai ddod i'r amlwg dros weddill cyfnod y Siarter.

**Ein barn dros dro felly yw y gall y BBC fwrw ymlaen â'i chynnig.** Os byddwn, yn dilyn ein hadolygiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, yn parhau o'r farn nad yw'r cynnig yn un materol, byddwn yn cadarnhau hyn a gall y BBC fwrw ati i weithredu'r cynnig heb asesiad pellach gan Ofcom. Os byddwn yn ystyried bod y newid yn faterol, byddwn yn symud ymlaen at Asesiad Cystadleuaeth y BBC ("**BCA**") ail gam manylach neu asesiad byrrach sy'n cymryd elfennau o'r BCA i ystyriaeth ("**Asesiad Byrrach**”).

*Crynodeb lefel uchel wedi’i symleiddio sydd yn adran trosolwg y ddogfen hon. Disgrifir y cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt a'n sail resymegol drostynt yn y ddogfen lawn.*

[1] BBC, Ebrill 2019. Prawf Budd y Cyhoedd BBC iPlayer, t.31.

Rydym yn cydnabod bod rhanddeiliaid wedi codi pryderon am effaith caffaeliadau'r BBC ar gystadleuaeth. Nid ydym wedi ystyried caffaeliadau ar y sail na fydd y BBC yn newid argaeledd cynnwys caffaeledig ar BBC iPlayer fel rhan o'r cynnig. Fel rhan o'n hadolygiad o'r Drwydded Weithredu, rydym wedi ymgynghori ar ofynion newydd i'r BBC adrodd ar y rôl y mae caffaeliadau'n ei chwarae yn ei chynlluniau i ddarparu allbwn unigryw, ac ar BBC iPlayer yn fwy cyffredinol, fel y gallwn fonitro unrhyw newidiadau y mae'r BBC yn eu gwneud yn y maes hwn yn well.[2]

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein dadansoddiad o gynnig y BBC a'n barn dros dro nad yw'n newid materol. Rydym yn ymgynghori ar ein barn dros dro tan 14 Tachwedd 2022, a byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad terfynol o fewn chwe wythnos, erbyn 30 Tachwedd 2022.

[2] Ofcom, Mehefin 2022. Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, paragraff 8.52.